# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 212(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Russell George** (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y comisiwn arbenigol a gaiff ei benodi o ran coridor yr M4 o amgylch Casnewydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

**NDM7063** Elin Jones (Ceredigion)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.13(ii), yn ethol Caroline Jones (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes.

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(60 munud)

**NDM7058 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod pedair blynedd ar 8 Mehefin 2019 ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi mewn mesurau arbennig.

2. Yn nodi ymhellach bod y trefniadau mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn gyson o dan oruchwyliaeth y Gweinidog Iechyd cyfredol.

3. Yn gresynu at y ffaith bod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr welliannau sylweddol i'w gwneud o hyd o ran ei wasanaethau iechyd meddwl ac o ran ei lywodraethu, ei arweinyddiaeth a'i oruchwyliaeth, er gwaethaf treulio mwy o amser mewn mesurau arbennig ar gyfer y materion hyn nag unrhyw sefydliad yn hanes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

4. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd i dderbyn ei gyfrifoldeb am fethu â chyflawni'r gwelliant gofynnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y pedair blynedd diwethaf ac ymddiswyddo.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd cychwynnol y nodwyd eu bod yn peri pryder yn 2015, a'r ffocws a'r gwelliant sy'n ofynnol o hyd er mwyn i'r statws uwchgyfeirio gael ei ostwng.

Yn nodi y bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch newid statws uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu gwneud ar ôl cael cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru.

## 6 Dadl Plaid Cymru - Refferendwm cadarnhau gadael yr Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

**NDM7059 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan ei gefnogaeth ddiamwys i refferendwm cadarnhau ar ba delerau bynnag a gynigir gan unrhyw Brif Weinidog bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, a bod opsiwn ar y papur pleidleisio i barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

1. Yn cydnabod ei bod bron yn dair blynedd ers i bobl Cymru bleidleisio i adael yr UE ac nad ydym yn nes at gyflawni eu dymuniadau.

2. Yn gresynu fod Aelodau Seneddol o'r ddwy brif blaid wedi ceisio atal y DU rhag gadael yr UE, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gwario £9miliwn ar daflen a oedd yn addo cadw at ganlyniadau'r refferendwm a'r rhan fwyaf o Aelodau Seneddol a etholwyd yn 2017 yn sefyll ar sail y maniffestos a oedd yn addo cyflawni BREXIT.

3. Yn galw ar Brif Weinidog nesaf y Deyrnas Unedig i gyflawni dymuniadau'r bobl a gadael yr UE ddim hwyrach na 31 Hydref 2019.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd yn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016.

2. Yn credu y dylid gweithredu ar ganlyniadau refferenda bob amser.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ar ôl 'barhau yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd' rhoi 'ac yn dweud unwaith eto y byddai Brexit heb gytundeb yn ganlyniad trychinebus a chwbl annerbyniol.'

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Trechu Tlodi

(60 munud)

**NDM7029 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth trechu tlodi, gyda chyllideb a chynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu.

2. Yn galw ar y Prif Weinidog i egluro'r meysydd cyfrifoldeb ar gyfer trechu tlodi ym mhob portffolio gweinidogol.

3. Yn cydnabod ac yn llywio atebolrwydd ar gynnydd a wneir ar yr agenda trechu tlodi.

**Cyd-gyflwynwyr**

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

**Cefnogwyr**

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Sian Gwenllian (Arfon)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Lynne Neagle (Torfaen)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

David Rees (Aberafan)

David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7060 Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Dad-ddofi Tir Cymru: yr achos dros anadlu bywyd i'n tirweddau a'n cymunedau gwledig ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019